y Dinesydd

PEN-BLWYDD 21 YN 21AIN

EBRILL 1994 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD RHIF 202

# Yn Un Mlynedd ar Hugain


Y DINESYDD

RHIF 1 EBRILL 1973

Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

'Deffro, mae'n ddydd', meddai'r ddraig ar dudalen flaen rhifyn cyntaf **Y Dinesydd** a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 1973. Ac un mlynedd ar hugain yn ddiweddarach mae papur bro cyntaf Cymru yma o hyd.

'Papur Lleol i Gaerdydd a'r Cylch' oedd penawd dalen flaen y rhifyn cyntaf hwnnw, ac ar ôl llawer tro ar fyd mae papur bro hynaf Cymru bellach yn dathlu pen-blwydd go bwysig.

Yn ystod y blynyddoedd mae golygyddion wedi mynd ac wedi dod, ac yn eu mysg roedd Norman Williams, (y cyntaf un), y diweddar gymwynaswr T Raymond Edwards, Sian Edwards, Aled Islwyn, Martyn Williams, Medwen Roberts a Shân Emlyn.

Gweithlu triw a gweithgar sydd wedi cadw'r **Dinesydd** ar ei draed am yr un mlynedd ar hugain - gwyrth yn sicr. Ond tybed beth oedd cynnwys y rhifyn cyntaf hwnnw - rhifyn prin erbyn hyn, mae'n siŵr.

Wel, os oeddech chi am danysgrifio fe allech dderbyn 10 copi drwy'r post am **BUNT** y flwyddyn! Bargen yn sicr.

Roedd cwmni banc y Midland yn rhoi hysbyseb tudalen lawn, HTV hefyd yn hysbysebu, a hyd yn oed cwmni Sleep & Light Centre y tro cyntaf a'r tro olaf, mae'n siŵr gen i!

Ac os oeddech chi am fynd am dro i Amgueddfa Werin Sain Ffagan byddai wedi costio cymaint â 10 ceiniog i oedolion (a'r pris uchel o 20 ceiniog yn ystod Gorffenaf ac Awst!).

Mewn cornel ar y dudalen flaen roedd y paragraff a ganlyn: *'Gobeithir cyhoeddi weithiau hanes go diddorol am unigolion sy'n byw yn yr ardal. Hynny yw pobl gyda diddordebau gwahanol i'r arferol, neu bobl sydd hwyrach wedi gwneud rhywbeth anghyffredin, neu wedi ymweld â rhywle go arbennig. Os gwyddoch chi am rywun â hanesyn diddorol yn ei gylch dowch i gysylltiad â ni.'*

Dydi pethau ddim yn newid - mae neges y paragraff yna yr un mor wir heddiw ag yr oedd ym mis Ebrill '73. Felly, y neges bwysig ar achlysur pen-blwydd pwysig ydi, 'Cysylltwch â ni. Rhowch wybod i'r **Dinesydd** beth sy'n digwydd yn eich ardaloedd chi. Cadwch mewn cysylltiad.' Mae angen llawer iawn mwy o hanesion a newyddion er mwyn sicrhau bod ein papur bro ni yn un diddorol - yn wir yr un mwyaf diddorol yng Nghymru. Does dim pwrpas i'r **Dinesydd** fod y papur bro cyntaf a'r hynaf yng Nghymru os nad ydi o hefyd yr un mwyaf diddorol a darllenadwy gan bob cenhedlaeth, yn hen ac ifanc fel ei gilydd.

Felly, ar achlysur pen-blwydd fel hyn, y neges yw 'Peidiwch â bod yn swil, peidiwch â bod yn ddiog, peidiwch â bod yn ddifater. Byddwch yn bositif, byddwch yn gefnogol, byddwch yn weithgar dros **Y Dinesydd**'. Mae dyfodol papur bro hynaf Cymru yn ein dwylo ni, Gymry Cymraeg Caerdydd.




***Y ddraig a ddyru gychwyn***

Hywel Samuel BDS (Cymru)
Nia Thomas

## DEINTYDD

- TRINIAETH GWASANAETH IECHYD.
- TRINIAETH BREIFAT

mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar

Rydyn ni'n dal i gofrestru cleifion newydd o dan y gwasanaeth iechyd

28, Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF1 2AB
0222 371393

## EGLWYS BETHEL, CAERDYDD

Mae Eglwys Fethodistaidd Gymraeg, Bethel, Rhiwbeina, yn awyddus i benodi Gweinidog Ordeiniedig rhan-amser neu Leygwr cymwys rhan-amser i'w bugeilio.

Am ragor o fanylion cysyllter â Gwyndaf Owen, 43, Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB cyn y 7fed o Fai.

## LYNN JONES

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandaf Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

## y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH MEURYN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 455200**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):***
tudalen lawn £350; hanner tudalen £180;
chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60;
pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991

PEN-BLWYDD 21 YN 21AIN

## Huw Roberts BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
Ffôn Llantrisant (0443) 224182

## Rhannu tŷ

angen person proffesiynol i rannu tŷ yn Nhregana. £160 y mis a biliau. Am ragor o wybodaeth ffoniwch Caerdydd 566 158 ar ôl 6 o'r gloch y nos.

## Cyfarfod Blynyddol y Dinesydd

### Capel y Crwys, Richmond Road 7.30pm, 25 Mai 1994

Ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf flwyddyn yn ôl, aeth y Pwyllgor newydd ati i wneud newidiadau mawr i drefniadaeth **Y Dinesydd**.

Erbyn heddiw mae gwaith beunyddiol y papur wedi ei rannu rhwng tri Grŵp, sef Grŵp Golygyddol, Grŵp Cyllid, a Grŵp Dosbarthu. Mae'r ddau grŵp cyntaf eisoes wedi bod yn gweithredu ers 6 mis a mwy, ac wedi cyflwyno elfen o broffesiynoldeb busnes i'r **Dinesydd**. Mae'n bwysig iawn erbyn hyn i ni redeg **Y Dinesydd** fel busnes oherwydd natur y papur a'r cyllid sylweddol iawn sydd arnom ei angen i'w gynhyrchu o fis i fis. Y Grŵpiau sy'n trefnu hynt **Y Dinesydd**, ac yn adrodd nôl i'r Pwyllgor Gwaith.

Mae cadeiryddion y Grŵpiau yn aelodau o Bwyllgor Gwaith **Y Dinesydd**, ac â'r hawl i wahodd unigolion o blith y 'cyhoedd' i wasanaethu arnynt. Mae hyn yn galluogi'r **Dinesydd** i fanteisio ar eu profiad, barn, a'u sgiliau er mwyn cyhoeddu'r papur.

Y Grŵp Golygyddol, yw'r uned sy'n pennu gogwydd olygyddol **Y Dinesydd**, yn dethol Golygydd, sef Catrin Lloyd Rowlands ar hyn o bryd, yn bwydo gwybodaeth a straeon i'w cynnwys, yn cydlynu â'r dylunydd ac argraffwr. Mae'r Grŵp Cyllidd, dan arweinyddiaeth y Trysorydd Aled Williams, yn gyfrifol am incwm a gwariant **Y Dinesydd**, ac yn cwmpasu hysbysebu ac ymgyrch Dinesydd 2000 ac agweddau newydd ar ddatblygu ffynonellau incwm i'r papur.

Yn ddiweddar iawn y sefydlwyd y Grŵp Dosbarthu sydd â'i gylch gwaith yn cwmpasu holl agweddau cael **Y Dinesydd** allan i'r darllenwyr, a'r defnydd gorau posib o'r 4000 o gopïau gaiff eu hargraffu'n fisol.

Rydym yn ymestyn gwahoddiad i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol eleni lle byddwn yn penodi aelodau newydd i'r Pwyllgor Gwaith neu'n ail-gadarnhau'r aelodau presennol yn eu swyddi. Yn ychwanegol i swyddi'r Cadeirydd y Pwyllgor, Ysgrifennydd, Trysorydd, Cadeirydd y Grŵp Golygyddol, Cadeirydd y Grŵp Dosbarthu, byddwn hefyd yn dewis tri aelod arall i'r Pwyllgor Gwaith am gyfnod o flwyddyn.

Mae rhyddid i unrhyw un enwebu ei hun neu unigolyn arall (os yw'r unigolyn hwnnw'n cydsynio ac yn barod i ymgymryd â'r gwaith) i'r Pwyllgor Gwaith, ac i gynnig eu gwasanaeth i unrhyw un o'r Grwpiau.

Llwyddwyd i gadw'r blaidd o'r drws dros y flwyddyn ddiwethaf, a thrwy ymdrechion swyddogion **Y Dinesydd** yn wyneb llawer o anawsterau, gwelodd 10 rhifyn arall o'r **Dinesydd** olau dydd.

Er hynny mae'n rhaid i mi danlinellu pwysigrwydd cefnogaeth ein darllenwyr i'r **Dinesydd**. Penderfynwyd gan y Pwyllgor y dylid dilyn pob trywydd ariannol posib cyn edrych eto ar oblygiadau ac ymarferoldeb codi tâl am **Y Dinesydd**, ond mae'r gefnogaeth i'n hymgyrch Dinesydd 2000 yn dal yn siomedig, er i ni anfon gwahoddiad personol at filoedd o Gymry Cymraeg Caerdydd cyn y Nadolig i danysgrifio £15 y flwyddyn i'r apêl. Does dim lle i unrhyw un ohonom yng Nghaerdydd laesu dwylo a disgwyl i rywun arall helpu. Papur i holl Gymry Caerdydd yw'r **Dinesydd**, a dylem oll fod yn barod i'w gefnogi cystal ag y gallwn.

Adroddiad y Cadeirydd
***Alun Ceri Jones***

## A'R PETH ARALL

## YR HALIFAX YN GWELD Y GOLAU

Ar ôl misoedd o ymgyrchu yn galed gan aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mae Cymdeithas Adeiladu'r Halifax o'r diwedd yn cydnabod y Gymraeg fel iaith gynhenid, ac felly am gryfhau ei gwasanaeth drwy'r Gymraeg.

Yr oeddynt yn wrth-Gymraeg. 'Saesneg yw iaith Prydain Fawr, ac mae Cymru'n rhan o Brydain,' meddai'r Halifax. 'Cwmni Saesneg ydym ni , a byddai unrhyw ddatblygiadau tuag at ddwyieithrwydd yng Nghymru yn costio'n ddrud i'r mwyafrif o'n cwsmeriaid yn Lloegr.'

Ond oherwydd dycnwch Cymdeithas yr Iaith mae'r Halifax wedi gweld y golau, ac yn addo cyflwyno gwersi Cymraeg i'w gweithwyr, sicrhau cynllun gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, hysbysebu swyddi'n ddwyieithog, cyhoeddi ei llenyddiaeth, argraffu ei arwyddion mewnol, papur swyddogol a llyfrau siec i gyd yn ddwyieithog.

'Ond ni allem fod wedi ennill y frwydr hon heb gefnogaeth gadarn llawer o bobl eraill,' meddai Gareth Kiff, Cadeirydd Cell Caerdydd, CYIG. 'Bu'r cyhoedd ar y strydoedd, yn Gymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, yn gefnogol iawn i'r ymgyrch gan gynnwys mudiadau, sawl Aelod Seneddol ac ambell i Arglwydd! Hoffwn ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd i'r fuddugoliaeth. Clywir fyth a hefyd am ewyllys da y sector breifat tuag at yr iaith Gymraeg. A chreu'r ewyllys da hwn yw ein nod fel Cymdeithas.'

Pa gymdeithas adeiladu arall fydd yn gweld y goleuni nesaf tybed?

### Y Dinesydd Mai

Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at Ysgrifennydd y Pwyllgor Golygyddol, Catrin Lloyd Rowlands, Lligan, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Ebrill 29. Ffôn: 0222 598243

## Apêl Dinesydd 2000

***Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000***

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, ℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000

☐ £15 ☐ swm arall
(nodwch faint) £________

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

..........................................................

..........................................................

Rhif ffôn: ..........................................................

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

*Archeb Banc*

I Fanc ccc ..........................................

Cangen ..........................................

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £_____ i ddechrau ar __/__/__ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..........................................

Rhif y cyfrif ..........................................

Llofnod (ion) ..........................................

Dyddiad ..........................................

Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.

NEWYDDION

## YR EGLWYS NEWYDD

- Cynhelir cyrddau pregethu blynyddol Eglwys Bresbyteraidd y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd, nos Sadwrn a dydd Sul, 23-24 Ebrill. Oedfa bregethu Gymraeg fydd yr oedfa am 7 o'r gloch nos Sadwrn, ac wyneb cyfarwydd iawn i Gymry Caerdydd fydd yn pregethu yno, sef y Parch. Brifathro Eifion Powell, Aberystwyth - ond gweinidog Eglwys Annibynnol Minny Street tan yn lled ddiweddar. Ef hefyd fydd yn pregethu yn yr oedfaon Saesneg yn y Tabernacl ar y Sul.

  Mae'r arfer o gynnal oedfa bregethu Gymraeg flynyddol yn y Tabernacl yn mynd yn ôl i ddechreuadau'r achos. Achos Cymraeg oedd y Tabernacl yn wreiddiol. Adeilad yn Heol Pant-mawr oedd man cyfarfod yr eglwys o 1808 hyd 1866, ac yna yn y flwyddyn honno symudwyd i'r safle presennol yng nghanol pentre'r Eglwys Newydd. Yn niwedd y ganrif ddiwethaf dechreuodd y Saesneg gael lle cynyddol yn yr oedfaon , ac erbyn dechrau'r ganrif hon yr unig oedfa Gymraeg a oedd yn weddill oedd oedfa nos Sadwrn y cyrddau pregethu blynyddol.

  Mae'r gweinidog a nifer o aelodau'r Tabernacl yn medru'r Gymraeg, ac ers rhai blynyddoedd bellach cynhelir ysgol Sul Gymraeg yn yr adeilad ar brynhawn dydd Sul. Pwy a ŵyr na welir y rhod yn troi eto, a'r Gymraeg yn adennill yn raddol y tir a gollodd gan mlynedd yn ôl!

- Ar 1 Mawrth, cynhaliwyd Cwis Gŵyl Ddewi yn Ysgol Melin Gruffydd a chafwyd noson lwyddiannus iawn. Daeth 15 o dimau at ei gilydd a bu cystadlu brwd i ateb y cwestiynau a osodwyd gan Pete Jones, un o rieni'r ysgol. Nid yn unig y codwyd cryn dipyn o arian tuag at gronfa'r ysgol, ond cafwyd noson o hwyl a sbri wrth ddathlu diwrnod ein nawddsant!

- Ar fore Sadwrn braf, heulog y 26ain o Fawrth, cynhaliwyd bore coffi yn festri Capel Minny Street, Caerdydd, er mwyn cyfrannu at y gost o brynu offer arbennig i helpu Fflur Owen i fedru cerdded ar ei phen ei hun. Mae Fflur, sy'n 9 oed, yn byw yn Heol Don, Yr Eglwys Newydd, gyda'i brawd Rhys a'i thad Hefin, ac yn mynd bob dydd i Ysgol Coed-y-gof. Er bod Fflur yn anabl oddi ar ei genedigaeth, mae'n gwneud ymdrech i wneud cymaint ag y gall hi i ddilyn pobl eraill. Mae hi o hyd â gwên ar ei hwyneb ac roedd yn canu gyda phlant yr ysgol Sul yn y Gymanfa unedig ar Sul y Blodau yn Ebeneser.

  Bu cefnogaeth dda i'r ymdrech hon, ac elw'r bore coffi yn cael ei chwyddo gan werthiant nwyddau a chacennau ar stondinau 'Dewch a Phrynwch'. Coronwyd y bore pan ddaeth Fflur a Hefin drwy'r drws, a gwelwyd Fflur yn cerdded i fyny ac i lawr y festri gyda help yr offer newydd a gwên ar wyneb Fflur, Hefin, Gwawr (ei modryb) a'i mam-gu, a oedd wedi dod i Gaerdydd o sir Aberteifi am y dydd. Cafodd Fflur gymeradwyaeth frwd ar ei 'walk-about' yn y festri, a chariwyd ymlaen gydag yfed coffi a phrynu!

  Mae cost yr offer yn uchel - cyfanswm o £1,600 - a nod yr ymdrech hon ar ran aelodau Eglwys Minny Street a ffrindiau eraill oedd helpu tuag at y gost. Braint ac anrhydedd yw rhoi cynhorthwy i ferch fach mor annwyl â Fflur. Bydd hi a Rhys yn awr yn medru cerdded law yn llaw o amgylch yr ardd yn Heol Don a llawer man arall. Casglwyd £350 yn ystod y bore coffi ac y mae cyfraniadau yn dal i gyrraedd.

## CYLCH LLYFRYDDOL CAERDYDD

- I gloi tymor llwyddiannus arall, ar 18 Mawrth, gwahoddodd y Cylch Llyfryddol dri llenor i sôn ychydig am eu gwaith fel awduron. Cawsom gan Dr Medwin Hughes syniad o'i ymateb i'r gwahoddiad a gafodd gan **Barddas** i lunio casgliad o gerddi crefyddol. Yn naturiol, detholiad personol sydd yn y gyfrol hon, yn cynnwys tua 200 o gerddi gan 82 o feirdd a phedwar bardd anhysbys; cawsom glywed beth yw canu crefyddol i Medwin Hughes, a phaham y dewisodd y beirdd arbennig hyn gan ymwrthod â chynnwys gwaith beirdd eraill.

  Gan Dr Sian Rhiannon Williams cawsom hanes yr ymchwil hir a thrwyadl y bu'n rhaid iddi hi ei gyflawni wrth olrhain dirywiad defnydd yr iaith Gymraeg yn rhannau uchaf Cwm Rhymni, ei bro enedigol, ar gyfer y gyfrol a gyhoeddwyd ychydig amser yn ôl. Wrth fodio cyfrol o'r fath mae'n hawdd anghofio'r llafur aruthrol y tu ôl i'r ffeithiau a'r casgliadau sydd ynddi. A diddorol oedd clywed gan Sian Rhiannon am yr oriau maith y bu hi'n ymhel â hen ddogfennau, papurau newydd ac yn y blaen, ac yn holi hynafgwyr o'r ardal, y rhan fwyaf ohonyn nhw bellach yn meddu ar frithgof yn unig o'r iaith y buon nhw neu eu rhieni yn hollol gyfarwydd â hi gynt.

  Thema Dr Harri Pritchard-Jones oedd sut y dechreuodd lenydda yn y lle cyntaf, ac ychydig o hanes dylanwad Iwerddon arno. Ar ôl graddio fel meddyg, bu am gyfnod ychydig yn ansicr pa lwybr yr oedd am ei droedio. Ond rhoddodd cyfnod o waith fel meddyg ar ynys unig y tu draw i Galway gyfle iddo ddechrau 'sgrifennu' - ac mae'n dal i wneud hynny, gan gynhyrchu swmp sylweddol o nofelau, adolygiadau, sgriptiau ayyb yn y Gymraeg.

  Arbrawf oedd hwn gan y Cylch Llyfryddol, arbrawf llwyddiannus iawn. Diolch i'r tri a fu mor barod i ddod atom i rannu rhywfaint o'u profiad wrth lenydda.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein Cymanfa Ganu. Mae'n amlwg bod y rihyrsal yng Nghymanfa Ganu'r Arglwydd Faer y nos Sul cynt wedi bod yn fuddiol! Roedd y canu'n fendigedig, a'r awyrgylch yn hyfryd a chartrefol o dan arweiniad Alun Guy. Daeth Alun â cherddorfa o 10 o ddisgyblion Glantaf sy'n byw yn Rhiwbeina, i'w gynorthwyo, a'r organydd oedd Mr John Howells. Diolch o galon i bob un ohonynt am gyfrannu at lwyddiant y noson.

- Ar 17eg Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod Dwp gyntaf y Gymdeithas noson o hwyl a chwerthin. Gallai'r Eisteddfod Genedlaethol fod wedi dysgu llawer o'n seremoni cadeirio a choroni urddasol! Mae ein dyled yn fawr i'r Parch. Ifor Rees, ein beirniad cerdd, a'r Parch. Maxwell Evans, ein beirniad llenyddol, am eu sylwadau difyr (ac adeiladol!), ac i Valmai Griffiths am arwain mor ddeheuig.

- Bydd Helfa Drysor y Gymdeithas yn gadael y Llyfrgell rhwng 7 a 7.30 o'r gloch nos Iau, Mai 19eg. Os ydych am ddod, neu am ymuno yn y swper basged ar ôl yr Helfa Drysor, cofiwch hysbysu unrhywun o'r pwyllgor cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni wneud y trefniadau.

- Llongyfarchiadau i Dr Manon Williams (merch Emyr a Myra Jenkins, Fairbrook Close) ar ei phenodi i'r swydd o is-ysgrifenyddes bersonol i Dywysog Cymru. Pob llwyddiant iddi yn ei gwaith, a phob hapusrwydd i Manon, Jeremy ac Indeg fach yn eu bywyd newydd yn Llundain.

- Pob hapusrwydd a llwyddiant hefyd i Sioned Guy (merch Alun a Meinwen, Heol Llanishen Fach) yn ei swydd gyntaf - gyda Bwrdd Twristiaid Cymru yn Llundain.

- Os oes unrhywun o fenywod Rhiwbeina am harddu'r wyneb neu golli pwysau, cerddwch draw at Stiwdio Sioned yn Old Church Road, lle cewch sgwrs mewn Cymraeg hyfryd, naturiol tra'n cael y driniaeth. Da yw gweld cyn ddisgyblion Glantaf yn mentro i fyd busnes ac yn hysbysebu yn Gymraeg. Edrychwch o amgylch yn y cyfarfod nesaf i weld pwy sydd wedi ei gwedd-newid ar ôl bod i Stiwdio Sioned. Ewch draw i'w chefnogi.

- Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth disyfyd Audrey Whicher, Heol y Coed. Rydym i gyd yn cydymdeimlo'n fawr iawn â'i gŵr Peter, a'r teulu i gyd yn eu hiraeth.

## LLANDAF

- Dymunwn yn dda i Alun Rowlands ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth drom yn ddiweddar. Deallwn ei fod yn araf gryfhau.

- Digon tawel yw hi ar y Llain yn Llandaf y dyddiau yma, a fawr o hel straeon ar y stryd. Eto, gall rhywun gael sgwrs yn y Gymraeg yn amal iawn o gwmpas y Llythyrdy neu wrth gael paned yng Nghaffi Selyf. Dyna ichi le i gael pryd blasus, mewn awyrgylch gartrefol a Chymraeg. Selyf yn gweini yn y siop a'i fam siriol yn gweini - ac yn darparu bwyd cartre go iawn - yn y caffi.

  Ac ydy, mae'r gwanwyn wedi dod i Landaf - y cennin Pedr yn suo yn yr awel fel petaent yn moesymgrymu'i pennau tua'r gadeirlan. Ac ydy, mae'r ddylluan sydd wedi bod efo ni drwy'r gaeaf yn dal yn gwmni gefn nos yn ogystal â chnul y clychau gyda thoriad gwawr y bore.

## O ARDALOEDD ERAILL

- Llongyfarchiadau i Liz a Hywel Emrys, Pen-y-lan, ar enedigaeth Ffion Erin.

- Trist oedd clywed am farwolaeth Barbara Owen-Ffoulkes, Heol Dan-y-Coed, ar ôl cystudd hir a wynebodd yn ddewr. Cydymdeimlwn â'i phriod Robert, a'r mab, Neil yn eu profedigaeth.

# CLOD I YSGOL GYMRAEG

**Cafodd addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg hwb aruthrol gan arolygwyr ysgolion o Wynedd yn ddiweddar.**

Cynhaliwyd arolwg Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym mis Ionawr, ac mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 28ain o Fawrth yn canmol safonau ar draws yr holl ystod o bynciau, a chaiff hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r arholiadau allanol.

Rhoddir sylw arbennig gan yr arolygwyr i ethos bositif yr ysgol, ansawdd yr addysgu, ymateb brwdfrydig a chydwybodol y disgyblion a'r parch rhwng disgyblion ac athrawon.

Canmolir Cymreictod yr ysgol a'r cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol a gynhelir mewn cymuned hapus a threfnus sydd yn adlewyrchu'r gwerthoedd a arddelir gan yr ysgol. Caiff y digyblion gyfle i fanteisio ar lu o ymweliadau addysgol. Sefydlwyd cysylltiadau effeithiol gyda diwydiannau a busnesau lleol a gwelwyd llwyddiant ysgubol cwmni menter 'Hysteria' y disgyblion.

Nodir fod disgyblion o bob oedran a gallu yn ymateb yn bositif, mae eu hymddygiad yn dda, ac mae ansawdd y dysgu yn llai na boddhaol mewn pump y cant o'r gwersi yn unig. Canmolir agwedd iach a chefnogol yr ysgol tuag at ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Yn ogystal, mae'r drefn weinyddol o ddydd i ddydd, a'r arweiniad roddir gan y prifathro a'r llywodraethwyr yn cael ei ganmol. Mae'r adroddiad yn feirniadol o gyflwr yr adeiladau er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed i wella cyflwr mewnol yr ysgol. Felly, ymhlith y materion allweddol ar gyfer gweithredu rhestrwyd yr ardaloedd y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau lles y disgyblion.


Wrth groesawu'r adroddiad, dywedodd Alun Davies, Cadeirydd y llywodraethwyr, 'Mae'r arolygwyr yn dweud fod yr ysgol yn cynnig gwerth am arian wrth ystyried y canlyniadau arholiadau ynghyd â'r gweithgareddau allgyrsiol cyfoethol a gynhelir. Mae hyn yn glod uchel i'r prifathro a'r staff, ac yn hwb i'r ysgol ac addysg Gymraeg.'

Ac meddai J. E. Malcolm Thomas, y prifathro, 'Mae'r adroddiad yn deyrnged i'r bartneriaeth rhwng rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Tanlinella fod yr ysgol yn llwyddo i greu cymuned war y mae'r holl aelodau yn ymfalchio ynddi.'

# Pencampwyr Peniog Radio Cymru

Rhisiart Williams, a ddaw o Gaerdydd yn wreiddiol ond sydd bellach yn gweithio fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, a gyrhaeddodd rownd derfynnol cwis gwybodaeth gyffredinol Radio Cymru, 'Pennau Bach 1994', yn derbyn tlws gan Tim Harley, cwisfeistr y gyfres. Daeth Rhisiart yn ail yn y bencampwriaeth.

Yn ôl cynhyrchydd rhaglen 'Pennau Bach', Non Vaughan Williams, cafwyd ymateb gwych i'r apêl a wnaed yn y wasg am gystadleuwyr i'r gyfres eleni. 'Rydym ni wedi ein synnu gan yr ymateb a gawsom ni,' meddai, 'ac mae'n dda gen i ddweud mai trwy ein hapêl yn y wasg y cysylltodd dau o'r cystadleuwyr buddugol â ni. Rydym ni



felly'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth y papurau newydd a'r papurau bro.'

David Thomas, athro yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Llandysul oedd y pencampwr, a Huw Evans o Frynaman Uchaf oedd yn y trydydd safle. Bydd y gyfres yn dychwelyd yn yr hydref ar gyfer pencampwriaeth 1995, ac os hoffai unrhywun o ddarllenwyr **Y Dinesydd** gystadlu yna ysgrifennwch, gan nodi eich rhif ffôn, at 'Pennau Bach', Radio Cymru, BBC Cymru, 32 Heol Alexandra, Abertawe SA1 5DT

## NODWEDD

**Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yn Nghaerdydd a'r cyffiniau**

# TRIBAN HEN FORGANNWG WEN

**gan E. Wyn James**

Wrth ddiweddu'r golofn hon y tro diwethaf dyfynnwyd triban o waith y Ficer Prichard. Mae hynny'n tanlinellu'r ffaith fod galw'r triban yn 'driban Morgannwg', fel y gwneir yn gyffredin erbyn heddiw, yn gamarweiniol ar un ystyr. Rhaid cofio fod beirdd ar draws Cymru wedi dewis canu ar y mesur hwn, ac yn eu plith Gogleddwyr megis Morgan Llwyd a Lewis Morris a Thwm o'r Nant, yn ogystal â Deheuwyr megis y Ficer Prichard.

Eto, y mae'n wir dweud fod i'r triban gysylltiad arbennig â'r De, ac â Morgannwg yn enwedig. Fe'i gelwir weithiau yn 'Fesur Gŵyr Deheubarth', ac mor agos oedd ei gysylltiad â Morgannwg erbyn y ganrif ddiwethaf fel y gallai tribannwr o Aberdâr o'r enw Jenkin Howell (1836-1902) ganu fel hyn:

*Mae gwŷr y North ers oesau*
*Yn hoffi caeth fesurau,*
*Ond triban hen Forgannwg wen*
*Ar fawl neu sen yw'r gorau.*

Y triban, heb os, yw hoff fesur beirdd gwlad Morgannwg erbyn y ddeunawfed ganrif a'r ganrif ddiwethaf, ac er bod tribannau yn cael eu llunio a'u hadrodd ar draws Cymru i lawr at ein canrif ni, ym Morgannwg - a dwyrain Morgannwg yn enwedig - y mae'r triban wedi gwreiddio ddyfnaf. Fel y sylwodd D. Myrddin Lloyd: 'Ym Morgannwg a'r ardaloedd o'i chwmpas y bu, ac y pery poblogrwydd pennaf y triban, a blas ei thafodiaith, a swyn ei henwau lleoedd, ei bywyd a'i harferion, yn hyfrydwch trwyddynt.'

Er yr holl sôn am 'dribannau Morgannwg', fe ddylid cofio mai 'englynion' ac nid 'tribannau' oedd enw arferol gwŷr Morgannwg arnynt. Yn wir, tystia'r Athro G. J. Williams fod yr henwyr yn nwyrain Morgannwg yn parhau i'w galw'n 'englynion' mor ddiweddar â phumdegau' r ganrif hon. Hwyrach fod hynny'n atgof o'r ffaith fod y triban yn tarddu o'r hen englyn cyrch. Ond y mae tueddiad yn iaith Morgannwg i alw unrhyw bennill pedair llinell yn 'englyn'.

Telynegion bychain yw tribannau Morgannwg, yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd a helyntion y werin bobl. Ond, at ei gilydd, adlewyrchu bywyd yr hen Forgannwg wledig, ysgafnfryd, y maent. Yn y faled yn hytrach na'r triban y cawn fwrlwm ac argyfyngau'r bywyd trefol newydd a ffrwydrodd i fodolaeth ym Morgannwg yn ystod y ganrif ddiwethaf yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Ac er bod nifer o dribannau rhybuddiol a moeswersol ar gael, yr emyn yn hytrach na'r triban yw'r prif sianel ar gyfer y profiadau ysbrydol dwys a ddaeth yn sgil Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif.

Dyluniwyd gan Androulla Cleovoulou 0633 220985 • Argraffwyd yng Nghaerdydd gan Hartleys Printing Co 0222 460636

YSGOLION

# MENTER GLANTAF

Mae **Iechyd Da** a **Un, Dye, Tri** yn ddau gwmni Menter yr Ifanc yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Dechreuodd y ddau gwmni ym mis Hydref 199 3.

Mae **Iechyd Da** yn cael ei redeg gan grŵp blwyddyn 12 yr ysgol, ac yn cynhyrchu a gwerthu dŵr ffynnon naturiol. Mae'r dŵr wedi bod ar werth yn yr ysgol a siopau lleol ers mis, ac rydym yn barod wedi gwerthu dros fil o boteli.

Mae **Un, Dye, Tri** yn gwmni o 33 aelod o grŵp As' Busnes blwyddyn 10 yr ysgol, yn cynhyrchu dillad arbennig sydd wedi eu lliwio mewn dull unigryw. Maent wedi cynnal sioe ffasiwn yn yr ysgol ac wedi gwerthu eu nwyddau yn llwyddiannus i blant yr ysgol.

Mewn Ffair Fasnach ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Llanisien enillodd **Iechyd Da** ddau allan o bump gwobr, ac enillodd **Un, Dye, Tri** wobr am y stondin orau.

Cymaint fu llwyddiant **Iechyd Da** fel y bu i bwt o newyddion amdanynt gael ei ddarlledu ar y rhaglen **Heno** ar S4C ddiwedd mis Mawrth.

### CYNRYCHIOLI CYMRU

Llongyfarchwn Zoe Hewlett o Ysgol Glantaf ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yn y tîm hoci.

### DATHLU PEN-BLWYDD YN 15 OED

Eleni bydd Ysgol Glantaf yn dathlu ei phen-blwydd yn 15 oed. I ddathlu'r achlysur cynhelir cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant nos Iau 28 Ebrill 1994 pan berfformir Requiem Mozart ynghyd â gweithiau gan Haydn a Mathias. Mae côr unedig wedi'i ffurfio yn arbennig ar gyfer y noson honno gyda chorau Philharmonig Caerdydd a Chasnewydd yn ymuno â chorau'r Ysgol Isaf a'r Ysgol Uchaf.

### CYSTADLEUAETH DYDD GŴYL DDEWI

Enillydd y wobr gyntaf am ysgrifennu creadigol oedran 10-12 yng nghystadleuaeth Gŵyl Ddewi y Western Mail eleni oedd Hywel Gwynn Williams, disgybl yn Ysgol Glantaf. Cipiodd y wobr o £100 am ei draethawd ar 'Pam y dylem ofalu am ein hamgylchfyd'.

**Y mis hwn rydym yn cynnwys gwaith plant Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - sef peth o gynnyrch llenyddol Gŵyl Glantaf a newyddion cyffredinol o'r ysgol.**

# GŴYL GLANTAF

Cynhaliwyd Gŵyl Glantaf eleni am y trydydd tro yng nghanolfan Gerddi Soffia. Bu'r ysgol gyfan am y deuddydd Mawrth 10fed a'r 11eg yn mwynhau gwahanol weithgareddau.

Clustnodwyd y diwrnod cyntaf ar gyfer y cystadleuthau chwaraeon, yn cynnwys pêl droed, rygbi, pêl rwyd, pêl fasged, hoci, tenis bwrdd a nofio. Cafwyd cystadlu brwd gyda'r pedwar llys - Dewi, Illtud, Teilo a Dyfrig yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Dewi oedd y llys buddugol yn y cystadleuthau chwaraeon.

Ar yr ail ddiwrnod cynhaliwyd eisteddfod yr ysgol gyda'r pedwar llys eto yn ymgiprys â'i gilydd. Cafwyd cystadleuthau llwyfan o'r safon uchaf. Roedd y disgyblion hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu yn y cystadleuthau gwaith cartref yn y gwahanol bynciau. Cynhaliwyd seremoni gadeirio liwgar, ac enillydd y gadair eleni oedd Carys Moseley o lys Illtud. Sian Stephen a gipiodd y tlws fel prif lenor yr ysgol isaf, ac enillydd y tlws Saesneg oedd Minnie Watkins, y ddwy o lys Illtud. Dewi a Dyfrig oedd y llysoedd buddugol yn yr Eisteddfod gyda Llys Illtud yn ennill y marciau uchaf am waith cartref. Illtud oedd enillwyr yr ŵyl gyfan.

Cafwyd deuddydd llwyddiannus iawn yng Ngherddi Soffia, a braf iawn oedd gweld yr ysgol gyfan gyda'i gilydd ar yr un safle. Diolchwyd i Miss Rhia Owen a Mr B. D. Harries am eu gwaith fel beirniaid.

Cystadleuaeth boblogaidd iawn yng nghystadleuthau gwaith cartref Cymraeg yr ŵyl oedd ysgrifennu cerddi Haiku. Dyma rai enghreifftiau.

### THEATR

Seti a llwyfan,
Actorion yn perfformio
A phawb yn mwynhau

**Sioned Davies *(Dyfrig)***

### Y LILI WEN FACH

Ei phetalau'n wyn
A'i phen yn plygu rhag gwynt
Ac oerni'r gaeaf.

**Angharad Shore *(Illtud)***

### NOS

Tywyllwch yn dod
Fel blanced o sidan du
Yn llyncu pob dim.

**Rhiannon Todd *(Dewi)***

### Y DDERWEN

Sefyll yn gadarn
Heb symud modfedd o'i lle,
Cychwyn fel mesen.

**Huw Brain *(Teilo)***

### YR HELFA

Cŵn dan hud y corn
Gŵyr a gwragedd yn hela,
A'r llwynog yn ffoi.

**Hywel Williams *(Dewi)***

# · Byd y Bêl · Byd y Bêl ·

**PÊL DROED**

Enillodd tîm blwyddyn 7 gystadleuaeth pêl droed Cwpan Caerdydd a chynrychioli De Morgannwg yng Nghwpan Ysgolion Cymru.

**RYGBI**

Enillodd tîm saith bob ochr blwyddyn 8 gystadleuaeth Ysgol Bryanston, Swydd Dorset.

**PÊL FASGED**

Enillodd timoedd blynyddoedd 8 a 9 gystadleuaeth pêl fasged y Sir.

# EISTEDDFOD Y DYSGWYR 1994

Oedd, roedd hi'n noson ardderchog eto eleni! Roedd neuadd Canolfan yr Urdd dan ei sang nos Fawrth, 23 Mawrth, a dysgwyr o bob safon yn barod i fentro i'r llwyfan i ganu ac adrodd. Roedd llawer wedi bod wrthi'n paratoi gwaith ar gyfer y cystadleuthau llenyddiaeth, coginio a chelf hefyd. Roedd beirniaid a threfnwyr yr eisteddfod wrth eu bodd a'r dysgwyr yn ennill hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

Llythyr at olygydd papur cenedlaethol yn dadlau naill ai o blaid neu yn erbyn agor siopau ar y Sul oedd testun prif gystadleuaeth yr eisteddfod. Roger Morgan, sy'n dysgu Cymraeg ar gwrs ym Mhrifysgol Morgannwg, a dderbyniodd dlws yr eisteddfod wrth ennill y gystadleuaeth. Dyma ran o'i lythyr:

'...Unwaith agorwn y siopau bydd yr holl beth yn cynyddu fel pelen eira yn rhedeg i lawr ochr mynydd. Erbyn i'r belen eira fach gyrraedd gwaelod y mynydd bydd hi wedi casglu digon o eira i gladdu'r dref wrth droed y mynydd. Mae'r siopau'n denu'r cwsmeriaid. Mae'r cwsmeriaid yn dod mewn ceir. Ar y foment does dim rhaid talu i barcio mewn nifer o feysydd parcio ar y Sul, ond bydd hyn yn siŵr o newid cyn bo hir. Bydd y wardeiniaid traffig yn gorfod gweithio, heb sôn am y gwasanaethau argyfwng. Mwy o geir ar y ffordd; mwy o ddamweiniau'n digwydd. Wrth gwrs, bydd y siopau mawr eisiau bara a llaeth fel arfer. Mae hyn yn rhoi pwysau ar fusnesau eraill i weithio ar y Sul rhag ofn iddyn nhw golli eu cytundebau. Mae'r dynion post eisoes yn casglu'r post ar ddydd Sul. Tybed faint o amser fydd hi cyn iddynt orfod dosbarthu'r post ar y Sul? Hoffech chi gael bil trydan ar y Sul?'

Ym marn Roger Morgan, '... y ddadl gryfaf yn erbyn agor siopau ar y Sul yw'r ddadl grefyddol... Gochrmynnodd Duw i ni gofio dydd y Sabath a'i gadw'n sanctaidd. Mae nifer o bobl wedi troi eu cefnau ar Dduw y dyddiau hyn. Efallai mai'r Eglwys, yn gyffredinol, sydd ar fai am hyn oherwydd ei methiant dros y canrifoedd i drosglwyddo'r Gair a neges Duw i'r bobl.'

Beth yw eich barn chi ar y pwnc hwn? A llongyfarchiadau mawr i Roger Morgan ar ei orchest!

EISTEDDFOTA . . .

## Darluniau Byw




Dim llawn llathen

Lit: not a full yard -
not quite 16 ounces.

Er enghraifft: Peidiwch â thalu gormod o sylw iddo fe. Mae e'n fachgen digon ffein ond 'dyw e ddim llawn llathen, 'ti'n deall.

**Arlunwaith gan Cen Williams (*Darluniau Byw*, Gwasg Gomer, 1990)**

## PROFIAD GWAITH YN FÉCAMP

gan Bethan Griffiths

Nôl ym mis Hydref fe dreuliodd pump ohonom sy'n astudio Ffrangeg yn y chweched uchaf ynghyd â phymtheg disgybl o ysgolion Cantonian a Stanwell, Penarth bythefnos yn Fécamp, Normandie yn gwneud 'Stage' - profiad gwaith.

Er nad oeddwn i'n edrych ymlaen i ymdopi am bythefnos gyfan yn siarad Ffrangeg roedd yn brofiad gwych ac yn un y byddem yn argymell i unrhyw un sy'n dysgu iaith dramor.

Roedd y llefydd gwaith eu hunain yn amrywio o ysgol feithrin i archfarchnad a phawb mwy neu lai wedi cael lle wrth eu bodd.

Yn ogystal â gwella ein Ffrangeg roedd y profiad o fyw gyda theulu ac ymdopi mewn sefyllfa gwaith yn dangos agwedd newydd o fywyd yn Ffrainc. Roedd yn gyfle ardderchog hefyd i wneud ffrindiau newydd - Cymry a Ffrancwyr.

Bydd yr ugain o Ffrancwyr yn dod atom ni yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Chwefror a braf fydd eu gweld unwaith eto.


## Cyrsiau Haf a Phreswyl i Ddysgwyr 1994

*Summer and Residential Courses for Welsh Learners 1994*

~

- Digon o ddewis - dyddiadau a lleoliadau
  *A choice of locations and dates*
- Cyrsiau ar gyfer oedolion ar bob lefel
  *Courses for adults at all levels*
- Cyrsiau i'r teulu cyfan
  *Courses for the whole family*
- Gwyliau dysgu Cymraeg
  *Combine learning Welsh with a holiday*

Am daflen yn rhoi manylion llawn am gyrsiau ledled Cymru, cysylltwch â:
*For a leaflet giving details of courses throughout Wales, please contact:*

~

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru,
245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: (0222) 555446

# CYRRAEDD Y COPA





*Ydych chi'n barod i anelu ac ymgyrraedd am y copa?*

Dyna'r her sydd o flaen Alun Reynolds o gwmni cyfreithwyr Robertsons. Mae Alun am gymryd rhan yn ras y '4 Peaks' - ras sy'n cael ei chynnal er budd gwahanol elusennau a noddir gan Gymdeithas Llwy Bren Vauxhall.

Y bwriad yw rhedeg i gopa pedwar o fynyddoedd uchaf gwledydd Prydain ac Iwerddon, copaon sy'n cynnwys Yr Wyddfa, o fewn 24 awr. Bydd y ras yn cael ei chynnal ar 30ain Mehefin, ac mae Alun yn gobeithio y bydd darllenwyr **Y Dinesydd** yn barod i'w noddi. Yn y gorffennol mae elusennau megis Ysbyty Llandochau wedi elwa ar draul y ras arbennig hon.

Felly, os yw rhai o ddarllenwyr **Y Dinesydd** a diddordeb mewn rhoi cefnogaeth ariannol iddo, y cwbl sydd raid i chi ei wneud yw cysylltu ag

Alun Reynolds
yng nghmwni
cyfreithwyr Robertsons,
6 Park Place,
Caerdydd CF1 3DP,
Ffon 0222 237777.

Cewch yr holl fanylion ganddo.

PEN-BLWYDD

# *Pen-blwydd Hapus i'r Dinesydd!*

gan EIRY PALFREY

Mae'r **Dinesydd** yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 y mis hwn - a dyna ein seren astrolegol. **Aries** yw arwydd **Y Dinesydd** ac i bob Aries (sef pawb a anwyd rhwng 21 Mawrth ac 21 Ebrill) dyma grynhodeb byr o'ch nodweddion.

## ARIES

Rydych chi'n arweinydd naturiol sy'n casáu dilyn pobl eraill. Fe fyddwch yn disgleirio mewn sefyllfa o awdurdod neu fel trefnydd. Gwell gyda chi ddilyn eich trywydd eich hunan, yn eich amser eich hunan. Mae tuedd ynddoch chi weithiau i anwybyddu anghenion pobl eraill gan eich bod yn canolbwyntio cymaint ar eich anghenion chi'ch hunan. Ond fe all yr holl hunan hyder 'na weithiau guddio ansicrwydd. Rydych chi'n ddewr iawn, yn llawn ynni, ac yn llawer iawn o hwyl mewn cwmni. Rych chi wrth eich bodd gyda her ymhob peth, ac os nad yw'r her yno gallwch ddiflasu a cholli diddordeb. Rydych chi'n annibynnol iawn. Yn berson gonest, yn llawn brwdfrydedd. Rydych chi braidd yn ddiamynedd gyda thymer wyllt sydyn, ond mi fyddwch chi'n anghofio'n gyflym, a fyddwch chi byth yn dal dig.

Eich bai mwyaf yw eich hunanoldeb, a'r duedd i anghofio ystyried pobl eraill. Mae'n gas gennych chi ufuddhau i eraill gan fod gyda chi farn bendant ar bob dim.

## Y DINESYDD

A dyna yn y bon gymeriad **Y Dinesydd** hefyd. Papur arloesol, sydd wedi dilyn ei drywydd ei hun ar hyd y blynyddoedd, a gosod patrwm i bapurau bro eraill. Mae ganddo hefyd ei farn bendant ei hun ar bob pwnc. Mae wedi wynebu'r her o gyflenwi anghenion Cymry'r brifddinas heb os, ac o edrych ar ei siart mae'r dyfalbarhad a'r gallu i oresgyn problemau i'w weld yn gryf yn safle ei Esgynnydd syddyn arwydd Virgo. Yma hefyd mae'n cael ei ffyddlondeb di-ball i'r iaith a'r 'pethe'. Mae'r Lleuad yn y siart yn arwydd creadigol Pisces, ac mae'r **Dinesydd** wedi bod yn greadigol iawn dros y blynyddoedd, ac mae Pisces hefyd wedi ei allugoi i fynd gyda'r lli pan fod gofyn.



Ar bwynt ucha'r siart mae'r arwydd amryddawn cyfathrebol, Gemini, arwydd addas iawn i bapur newydd. Y blaned sy'n rheoli Gemini, a Virgo yw Mercher - negesydd y Duwiau mewn hen fytholeg Arian Byw. Ac mae Mercher yn gryf iawn yn siart **Y Dinesydd**.


## Y DYFODOL

Mae'r dyfodol yn edrych yn ddiddorol iawn dros y blynyddoedd nesaf yma. Mi fydd yna dipyn o newidiadau, ond newidiadau o dan yr wyneb fyddan nhw - tipyn o ail-wampio strwythur y bwrdd golygyddol a'r cylchgrawn ei hun. Mae'r papur yn addo tyfu (yn ei faint?), ac mae mwy o gymorth ariannol ar y gorwel hefyd, a hynny o gyfeiriad annisgwyl iawn. Mae pobl ifainc yn mynd i gael proffil uwch erbyn diwedd y flwyddyn - arwydd da iawn er sicrhau ei ddyfodol. Ac erbyn diwedd 1995 bydd y papur yn un ysgafnach, mwy beiddgar a mwy poblogaidd.

PEN-BLWYDD 21 YN 21AIN

*POB LWC I'R DINESYDD, A PHEN-BLWYDD HAPUS IAWN!*

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 138



### *AR DRAWS*

8. I gasglu mwyar aeth y ffermwyr (8)
9. Os iach yw, paham mae'n peri i hyn ddigwydd? (5)
10. Gwyll (4)
11. Gwahanol enwau Astra yn achosi aml rwystr (10)
12. Coed hyblyg y basgedwr (6)
14. Traddodi sgwrs na ddylid ei ddarllen (8)
15. Amlinelliad gan dderyn sy'n torri'r Saboth (7)
17. Mae'n gas gennyf ei sŵn. Fe'i taflaf ar lawr, ond mae'r sŵn cas i'w glywed o hyd (7)
20. Caed bil Nathan am wneuthur gwrthbanau (8)
22. Wrthi yn troi'r ardd y bu, heb fod neb yn medru ei glywed (6)
23. Pôl piniwn parchus (6,4)
24. Llawer wedi colli enw da a disgyn i'r gwaelod (4)
25. Gwedd arall ar gyfer amryw rai (5)
26. To bach (4,4)

### *I LAWR*

1. Symud y maent o'r naill dud i'r llall (8)
2. Cariad er gwaethaf popeth (4)
3. A'i ——— fel gwawn' (Hen faled) (6)
4. Nia a dry iddo i gael cyfrif (7)
5. Un o gyrion y ddinas (8)
6. Ben a ddigiodd yn arw, ond bu'n reit gwrtais (10)
7. Gweddi eglwysig sy'n rhestru llawer o ddeisyfiadau (6)
13. Baled sebon allai fynegi'r ffaith nad oedd neb yno (10)
16. Trosi sgôr yn rygbi â digon yn sbar. Dyna nod fy mywyd (8)
18. Digon o ddewis (8)
19. Digymar efallai, ond nid rhaid iddo fod yn ddibriod (7)
21. Hanner cant o oriau sy'n ddigon i wneud y wagenni trwm (6)
22. Sypyn o faich pert (6)
24. Dioddef o newyn (4)

### CYSTADLEUAETH RHIF 137

Derbyniwyd chwech-ar-hugain, a phob un yn gywir. Sylwer ar 16 ar draws; HEBOCA oedd yr ateb a ddisgwylid, ond cafwyd HEBOGA gan rai o'r datryswyr, a chan fod Geiriadur Mawr, Mawr y Brifysgol yn rhoi'r ddwy ffurf, derbyniais y ddwy fel rhai cywir.

Enw'r enillydd a dynnwyd o'r pentwr oedd Carys Humphreys, 1 Bodlondeb, Bangor, Gwynedd, ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddi gyda hyn. Dyma enwau'r lleill oedd wedi ateb yn gywir: Beryl Hall, Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; John G. Breese, Glanyrafon; Mrs G. M. Hopkins, Llanisien; Michael Francis, Casnewydd; James Wiegold, Rhiwbeina; A. R. Rowlands, Abertawe; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; E. Haydn Jones, Rhiwbeina; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Tecwyn Vaughan Jones, Penarth; Delwyn Tibbott, Pentyrch; Margaret Russel, Y Mynydd Bychan; Beti Wyn Thomas, Twickenham; T. Arfon Owen, Y Borth; Marian Lake Llanfihangel-ar-Elai; Rhian James, Llanisien; Margaret Jones, Cyncoed; Sylvia Evans, Y Maendy; Eira Jones, Y Mynydd Mychan; Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd; Eira Jones, Rhydhelyg Avenue; Dilys Gunston, Cyncoed; Huana Simpson, Y Bontfaen; Meurig Jones Llandaf.

### CYSTADLEUAETH RHIF 138

Tocyn llyfr £5 fel arfer. Pob ymgais i gyrraedd ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 27 Ebrill, os gwelwch yn dda. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair.

### DATRYSIAD 137




## GWAWDIO . . .

# TOM

*'Tom wyd ymhob ystyriaeth,*
*Tom ffiaidd yw'th Brydyddiaeth,*
*Ac nid yw'r cyfan sy'n dy Benn*
*Ond tommen anwybodaeth.'*

Y Tom dan sylw yn y wawd bennill yna oedd y Parchedig Thomas William, Bethesda'r Fro, a'r awdur oedd Iolo Morgannwg. Tystiolaeth ddi-ymwad nad oedd 'na lawer o gariad brawdol rhwng y ddau gymydog enwog yn eu dydd.

Daw'r pennill yna o lyfr diweddaraf y Parchedig W. R. Nicholas, **Thomas William, Bethesda'r Fro** a gyhoeddwyd gan Wasg John Penry, pris £3.95.

Mae'r llyfr yn seiliedig ar Ddarlith Dyfnallt a darddodwyd gan yr awdur yng Nghyfarfodydd Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg ym Mangor yn 1975. Ond mae'n amlwg bod W. R. Nicholas wedi gwneud gwaith ymchwil trylwyr iawn oddiar iddo draddodi'r ddarlith honno.

Mae hanes bywyd Thomas William yn fanwl gywir ganddo ynghyd â sylwadau diddorol ar ei farwnadau a'i bregethau, ac ar gapel Bethesda'r Fro. A chyfeiria hefyd at y berthynas stormus a fu rhwng Thomas William â Iolo Morgannwg.

Ond yn fwyaf arbennig, ag yntau'n emynydd cyfoes meistrolgar ei hun, mae gan W. R. Nicholas bennod gyfoethog ar 'Emynau' Thomas William. Fe ddengys sut y mae'r emynau yn 'taflu goleuni dadlennol ar ei bersonoliaeth, oblegid maent yn adlewyrchu, nid yn unig ei argyhoeddiad a'i ddawn, ond ei deimladau personol gwaelodol'. Ac amheuthun yw cael barn un emynydd am emynydd arall.

Hynod ddiddorol hefyd yw'r rhestr llyfrau yn llyfrgell Thomas William, y daeth W. R. Nicholas o hyd iddi yn y Llyfrgell Genedlaethol gyda'r teitl 'A Catalogue of Books in my possession in 1778'. Fe ddengys y llyfrau hynny ymha feysydd enwadol a diwinyddol y bu emynydd Bethesda'r Fro yn pori ynddynt ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Cyfrol ddarllenadwy iawn yw hon ac yn llawn gwerth y pris a godir amdani. Mawr ddiolch i'r cyfaill o emynydd o Borthcawl am y gymwynas ddiweddaraf hon o'i eiddo i'n llên a'n hemynyddiaeth.

IFOR REES

NEWYDDION



## Eddie May a Thîm Pêl Droed yr Urdd

Dyma lun o Reolwr Clwb Pêl Droed 'Cardiff City' yn cyflwyno crysau pêl droed i dim dros 10 oed yr Urdd Caerdydd. Noddwyd y crysau gan gwmni teledu Fflic. Bu Fflic hefyd mor garedig â noddi crysau tim pêl droed dan 9 oed yr Urdd. Ffilmiwyd yr eitem gyda Rheolwr Cardiff City a'r bechgyn ym Mharc Ninian ddiwedd mis Chwefror, ac fe ddarlledwyd yr achlysur ar y rhaglen deledu 'Steil' ar Slot 23 yn ddiweddar.

Mae'r Clwb Pêl Droed yn dal i gyfarfod yn Nghaeau Llandaf bob bore Sadwrn rhwng 10 ac 11 o'r gloch y bore, ac erbyn hyn mae yna dros 65 o aelodau. Mae croeso i fechgyn a merched rhwng 7 a 11 oed ddod i ymuno a'r criw.



## Clwb Pêl Rwyd Cynradd yr Urdd

Dyma rai o aelodau Clwb Pêl Rwyd Cynradd yr Urdd sydd yn cyfarfod pob nos Fercher yng Nghanolfan yr Urdd rhwng 6 a saith o'r gloch. Daw'r merched o Ysgol Gymraeg Treganna, Melin Gruffydd, Pencae a Choed-y-gof. Mae'r clwb eisoes wedi derbyn nawdd gan gwmni teledu Apollo ar gyfer eu cit, a hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu rhodd caredig.

# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies

**Fe glywsom gan ferched y Bêl Rwyd beth amser yn ôl, a theg felly yw mynd allan i'r meysydd hoci y tro hwn. Y tymor hwn sefydlwyd Cynghrair Cenedlaethol Cymru â saith o dimau, a chawn yr hanes gan *Brenda Goodfellow,* athrawes Addysg Gorfforol Ysgol Glan Taf, sy'n chwarae dros Benarth.**

## CAMPAU'R MERCHED

Mae pob clwb yn chwarae deuddeg gornest-ar-ddeg, hynny yw un gêm gartre' ac un oddi cartre'n erbyn y chwe chlwb arall. Dyma i chi reol ddiddorol - rhaid chwarae pob gêm ar gae gwneud (astro-turf) sy'n golygu fod yn rhaid inni (Penarth) chwarae yng Nghaerdydd gan nad oes cae fel hynny gyda ni. Does dim un felly 'da'r Drenewydd chwaith, ac maen nhw'n gorfod croesi'r ffin i chwarae yn Henffordd!

Y clybiau eraill ydy Abertawe, Hwlffordd, Casnewydd, Cwmbran a Bae Colwyn, ac mae'r safon yn uchel, ond mae'n amlwg nad yw hi ddim mor uchel â Chynghrair Lloegr. Mae'r cynghrair yn llwyddiannus gan ein bod yn chwarae timau newydd; mae un gêm ar ôl gyda ni - yn erbyn Abertawe - ac os enillwn honno byddwn ni'n gyfartal gyntaf.

## Y BÊL HIRGRON



Enillwyd y Bencampwriaeth am yr ail dro-ar-hugain, ac mae Cwpan y Pum Gwlad yn Swyddfa'r Undeb, er nad oes cystal sglein arno wedi colli yn Nhwicenham. Byddai hi'n well cyfrif y ceisiadau pe byddai dwy wlad yn gyfartal, yn hytrach nag ystyried gwahaniaeth y pwyntiau.

Ugain cais a sgoriwyd yn y deg gornest y tymor hwn - 100 pwynt o'r 309 - a chafodd Ffrainc naw o'r rheiny a Chymru saith. Neil Jenkins a sgoriodd y nifer fwyaf o bwyntiau - 48, Eric Elwood, y Gwyddel, oedd yn ail â 44, a Thierry Lacrois, y Ffrancwr, yn drydydd â 42.

Er na fu'r ornest olaf yn foddhaol o bell ffordd, mae hawl berffaith inni ddweud ein bod yn symud yn ein blaenau o'r diwedd, ac y gallwn edrych yn hyderus ar y dyfodol, gan ddechrau yn Toronto ar Fehefin 11eg. Ni fydd unrhyw broblem yn na Phortiwgal na Sbaen, ac o ennill y ddwy hynny fe gawn chwarae yn Ne Affrig, neu yn lle bynnag y chwaraeir Cwpan y Byd ym Mai a Mehefin 1995. Mae hi'n bosibl mai ar Y Maes Mawr y bydd Rownd Derfynol y Cwpan hwnnw, cofier.

**T.D.**


## TALU'N ÔL I DRELÁI

Mae'r pencamwr bocsio pwysau plu'r byd, Steve Robinson, am wario miloedd o bunnau o'i enillion er mwyn gwella adnoddau chwaraeon ar gyfer pobl ifanc Trelái lle cafodd ei eni a'i fagu.

Mae'r clwb chwaraeon newydd gwerth £50,000 sy'n cael ei noddi ganddo ef a'i hyfforddwr, Ronnie Rush, yn cael ei adeiladu yn Grand Avenue, a bydd ar agor i ieuenctid Trelái ymhen rhyw ddeufis.

'Dyma fy ffordd i o dalu'n ôl i drigolion Trelái sydd wedi bod mor gefnogol i mi ac i roi rhywbeth gwell i bobl ifanc ei wneud gyda'u hamser na sefyllian ar gorneli strydoedd yr ardal,' meddai Robinson.

'Gan nad yw'r rheolau yn caniatáu iddynt ymarfer gyda'i gilydd bydd yna gyfleusterau i focswyr amaturaidd a phroffesiynol ar wahanol loriau. Byddwn hefyd yn darparu ar gyfer merched sydd am ddysgu hunan-amddiffyn.'



Ar hyn o bryd mae'n paratoi ei hun ar gyfer yr ornest yn erbyn Duke McKenzie sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ar 14eg o Fai.

# Eluned am Ewrop



Yn ôl pob tebyg fe allai Eluned Morgan sy'n hanu o Drelái fod o fewn dim i fod yr Aelod Seneddol ieuengaf yn Senedd Ewrop ym Mrwsel.

Bydd Eluned, sy'n 27 oed, yn sefyll dros y blaid Lafur yn yr etholiadau ym mis Mehefin yn etholaeth newydd Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel ymchwilydd gyda'r BBC yng Nghaerdydd, ac mae'n hyderus y bydd yn ennill y sedd ac yn troi ei golygon tuag at Ewrop. Mae Eluned yn rhugl yn y Gymraeg yn ogystal ag mewn Ffrangeg a Sbaeneg, ac mae o dras gwleidyddol. Ei thad yw'r Parchedig Bob Morgan, ficer Trelái ac arweinydd Cyngor Sir De Morgannwg, ac mae ei mam, Elaine, yn gynghorydd lleol hefyd. 'Dyw'r etholaeth fydda i yn ei hymladd ddim yn ddiarth i mi,' meddai Eluned. 'Mae mam yn wreiddiol o Dyddewi. Rydw i'n edrych ymlaen at yr etholiad ac yn teimlo'n hyderus iawn.'

## Er Budd 'Tŷ Hafan'

Er pan symudodd Eglwys y Crwys i'w hadeilad presennol yn Heol Richmond, gwnaeth ei haelodau ddefnydd helaeth o'r adnoddau sydd yno - adnoddau llawer gwell nag oedd ar gael yn ei hen gartref yn Heol y Crwys.

Yn groes i ddymuniad ambell un, penderfynwyd cadw'r llwyfan eang yn y capel a ddefnyddiai'r Christian Scientists (italics) gynt i gynnal desgiau darllen gan na fydden nhw ddim yn arfer â phregethu o bulpud. Sawl gwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio defnyddiwydy llwyfan a'r pulpud newydd a godwyd ar un ochr iddo i gynnal oedfaon arbennig, megis oedfa i gofio Ann Griffiths, un arall wedi'i seilio ar farddoniaeth Gwilym R. Jones, ac oedfaon arbennig tymor y Nadolig. Tu ôl i'r gweithgarwch roedd athrawon yr Ysgol Sul, wrth gwrs, a George P. Owen ac aelodau Cymdeithas Ddrama'r eglwys, a hir gofir oedfa Sul y Pasg y llynedd pan lwyfannwyd yn broffesiyno l iawn ddrama'r Groglith, ***Y Neb o Ddyn***, a nifer fawr o blant ac aelodau'r eglwys yn cymryd rhan.

Yn ychwanegol at y ddarpariaeth hon, erbyn hyn trowyd ystafell fawr yng nghefn yr adeilad yn theatr ddeniadol sydd yn atyniad i fwy a mwy o Gymry Cymraeg Caerdydd. Ffrwyth ymdrechion lu i godi arian a haelioni'r aelodau yw'r sefyllfa foddhaol iawn y mae'r eglwys a 'r adeilad ynddi heddiw, ynghyd â pharodrwydd rhai o'u plith i roi o'u talentau a thorchi llewys i gyflawni gwaith ymarferol.

Ar yr un pryd mae Eglwys y Crwys yn barod bob amser i helpu achosion da eraill hefyd. Nos Wener, 11 Chwefror bu pymtheg o aelodau Ys gol Sul y Plant yn difyrru cynulleidfa niferus gan ddefnyddio'u talentau i adrodd a chanu a chwarae dwsin o wahanol offerynnau, gan gynnwys obo, clarinet, gitâr, ffliwt, ffidil a thiwba. Mrs Nest Owen drefnodd y noson gyda'r amcan o gyfrannu'r elw i brosiect **Tŷ Hafan**, yr hosbis i blant sâl y bwriedir ei sefydlu ar dir Ysbyty Sili. Derbyniwyd cyfraniad gan Gylch Cymorth yr eglwys, fel b od £550 ar gael i'w trosglwyddo i'r achos teilwng hwn.

Ac ar ddydd Sul, 20 Mawrth daeth Mrs Suzanne Goodall, sylfaenydd Mudiad **Tŷ Hafan** i oedfa'r bore yn Eglwys y Crwys i dderbyn s iec o £550 - elw'r gyngerdd a rhodd gan Gylch Cymorth yr Eglwys.

## *Cymrodorion Caerdydd*

Marion Eames, y nofelydd enwog oedd ein gwestai yn y cinio blynyddol a gynhaliwyd eleni eto yn ffreutur Coleg y Brifysgol. Daeth nifer dda o aelodau, a rhai nad ydynt eto wedi ymuno â'r Gymdeithas, i fwynhau noson ddifyr dros ben.

Yn ogystal â chael y fraint o wrando ar araith feddylgar Miss Eames, cawsom ein swyno gan ddatganiadau ar y delyn gan Siân Davies, telynores ifanc ddawnus dros ben y byddir yn clywed tipyn o sôn amdani yn y dyfodol, mae'n sicr. Mrs Susie Evans, fel Is-ysgirfennydd oedd yn gyfrifol am baratoi'r byrddau a threfnwyd y blodau gan Mrs Margaret Mostyn Jones.

Mae'n arferol i gymdeithasau Cymrodorion ar draws y byd anfon eu cyfarchion ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Nid oedd eleni yn eithriad a darllenwyd nifer o negeseuon gan yr ysgrifennydd, y Parchedig Ifor Rees. Yr oedd y noson yn binacl ar dymor llwyddiannus. Yn ystod y flwyddyn bu Mr Elwyn Evans, gynt o'r BBC, yn sôn am ddyddiau cynnar darlledu o Gaerdydd; cawsom hefyd noson ddiddorol o ffilmiau, a bu Mr Howard Goodfellow yn rhoi sgwrs ddifyr iawn i ni.


Edrychwn ymlaen at ymweliad Cymrodorion Y Barri â ni ar Ebrill 22ain, ac at y wibdaith i Glawdd Offa ar Fai'r 7fed. Beth am ddod gyda ni? A beth am ymuno â chymdeithas a oedd yn cyfarfod yng Nghaerdydd dros gan mlynedd yn ôl, fel y tystia cyfrol werthfawr Dr J. Gwynfor Jones, Y Ganrif Gyntaf? Arnom ni y mae ei dyfodol yn dibynnu.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar Hydref 7fed pan arwisgir y llywydd, sef Mr Hywel Jeffries yn Festri Minny Street am 7.15 o'r gloch. Mi fydd rhaglen ddifyr, gyda the a lluniaeth. Dewch i gefnogi'r llywydd newydd, fel y mae ef a'i briod, Gwyneth, yn cefnogi pob ach os Cymraeg yn y brifddinas gyda'r fath deyrngarwch.

### CYNDDISGYBLION YSGOL Y GWENDRAETH

Daeth criw da i Adundiad 1993 a drefnwyd yng Nghlwb Cinio Prifysgol Caerdydd, ac rydym wedi trefnu un arall yn ystod mis Tachwedd eleni eto. Rhag ofn fod eich dyddiadur yn dechrau llenwi, y dyddiad ar gyfer Aduniad 1994 yw Tachwedd 11eg. Bydd y manylion llawn yn cael eu cyhoeddi yn **Y Dinesydd** yn y man.

# GŴYL TELYNAU'R BYD



*Noddwr : Ei Uchelder Tywysog Cymru*
*Cyfarwyddwr Artistig : Marisa Robles*


***11-18 MEHEFIN 1994***

***Cyngherddau, datganiadau, dosbarthiadau meistr, gwerin, jazz, cystadlaethau ac arddangosfeydd masnach***

***Gyda thelynorion adnabyddus o Gymru a phob rhan o'r byd***

***Ceir rhaglen lawn gan y Swyddfa Cyhoeddusrwydd, Ffôn : 0222 342611***

**Neuadd Dewi Sant**
**Caerdydd**



HTV SWALEC

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# FFAIR FAI

Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan, Caerdydd

30 EBRILL - 2 MAI 1994
10.00 - 5.00 bob dydd

*Gŵyl genedlaethol a diwrnod allan i'r holl deulu!*
*Yr atyniadau yn cynnwys:*

- Ffair Fictoraidd, clowniau a phypedau, llain chwarae
- Codi'r Fedwen Fai
- Gweithdai i blant
- Arddangosiadau a stondinau crefft
- Cerddoriaeth a dawns
- Y pentref Celtaidd
- A llawer mwy, yn un o amgueddfeydd awyr-agored gwychaf Ewrop

Am fanylion pellach,
ffoniwch Caerdydd (0222) 569441
*Mynediad ar Ŵyl y Banc (2 Mai) o'r M4 (Cyffordd 33) yn unig*

Noddir y Ffair gan
SWALEC

## Y DIWEDDARAF GAN SAIN

MARGARET WILLIAMS
"Un Eiliad Mewn Oes"
CASET NEWYDD SBON

HOGIA LLANDEGAI
"Canu yn y Gwaed"
12 O GANEUON NEWYDD
CASET/CD

DYLAN & NEIL PARRY
"Heli'n fy Ngwaed"
CANU GWLAD AR EI ORAU

GWERINOS
"Di-Didl-Lan"
CASET A CD GWERIN

... a llawer iawn mwy

SAIN . LLANDWROG .
CAERNARFON . GWYNEDD
(0286) 831.111 (0286) 831.497

## CYMORTH CRISTNOGOL

Eglwysi ar waith gyda thlodion y byd

**CYNORTHWY-YDD GWEINYDDOL**
**RHAN AMSER - CAERDYDD**

Byddwch yn rhoi cymorth ysgrifenyddol/gweinyddol i'r Ysgrifennydd Addysg ac yn rhannu gweinyddiaeth gyffredinol y Swyddfa. Bydd y gwaith yn cynnwys cysylltu â gwirfoddolwyr a grwpiau eglwysig a chymunedol. Dylsech fod yn berchen ar sgiliau trefnu ardderchog ac o leiaf un flwyddyn o brofiad ysgrifenyddol/gweinyddol gan gynnwys prosesu geirau.

Cyflog £6,384 y flwyddyn - 17.5 awr yr wythnos
Mae hwn yn gytundeb penodedig hyd Mawrth 31 1995.

**Dyddiad cau: Mai 16**

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, anfoner at
Jeff Williams, Cymorth Cristnogol,
27 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF4 2DX.
0222 614435

Rydym yn gyflogwyr cyfle cyfartal